
Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Ionawr 2022

# Ymyriadau dal i fyny effeithiol: Set ymarferol o awgrymiadau

**Gall ymyriadau dal i fyny wneud cyfraniad sylweddol at adferiad addysg, os cânt eu cynllunio a'u cyflwyno'n effeithiol. Mae'r ddogfen hon yn amlygu ystyriaethau allweddol i ysgolion ac athrawon wrth ddewis a chyflwyno ymyriadau dal i fyny. Dylid ei ddarllen ar y cyd â briff WCPP ar ymyriadau dal i fyny effeithiol (Roberts, 2022).**



**Arfer da – asesu a monitro:**

- ✓ Defnyddio profion rhifiadol a rhesymu cenedlaethol i nodi anghenion dal i fyny disgyblion sy'n benodol i sgiliau
- ✓ Darparu ymyriadau dal i fyny sy'n targedu'r anghenion adfer hynny yn benodol
- ✓ Profi disgyblion yn rheolaidd a chael gwared ar ymyrraeth wrth iddynt gaffael y medrau hynny
- ✓ Parhau i fonitro disgyblion ar ôl yr ymyrraeth fel y gellir ailddechrau'r ymyrraeth os byddant ar ei hôl hi

**Elfennau arfer da:**

- ➢ Asesiadau cadarn i nodi anghenion a'u gwaelodlin
- ➢ Dewis ymyriadau penodol ar sail yr asesiadau i dargedu anghenion
- ➢ Monitro'n barhaus er mwyn osgoi diwylliant o ymyrraeth barhaus a sicrhau cefnogaeth gyfredol

**Adnoddau – BETH i'w gyflwyno:**

Mae rhestr o'r ymyriadau sydd ar gael wedi'u dadansoddi yn ôl themâu/maes, ynghyd â chrynodeb o'r dystiolaeth werthuso sy'n sail iddynt ar gael ar wefan y Sefydliad Gwaddol Addysg **yma**.

**Adnoddau – SUT i'w cyflwyno:**

Gweler **adroddiad canllawiau'r Sefydliad Gwaddol Addysg ar ddefnyddio cynorthwywyr addysgu** a'i **Becyn Cymorth Addysgu a Dysgu** i gael rhagor o wybodaeth am strategaethau ymyrraeth dal i fyny effeithiol (e.e. hyd ac amlder gorau, maint grŵp o gymharu ag ansawdd yr addysgu).

## Rhagor o wybodaeth

I gael papur briffio polisi cysylltiedig sy'n adolygu ac yn crynhoi'r dystiolaeth ar ymyriadau dal i fyny yn fanylach, gweler: Roberts, M. (2022). **Ymyriadau dal i fyny effeithiol.** Caerdydd: Canolfan Polisïau Cyhoeddus Cymru.

## Manylion yr awdur

Mae **Manon Roberts** yn Gydymaith Ymchwil yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

## Ynglŷn â Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Yma yn y Ganolfan, rydym yn cydweithio ag arbenigwyr polisi blaenllaw i roi tystiolaeth a chyngor annibynnol o ansawdd uchel i weinidogion, y gwasanaeth sifil a gwasanaethau cyhoeddus Cymru, sy'n eu helpu i wella penderfyniadau a chanlyniadau polisi.

Mae'r Ganolfan, sy'n cael ei hariannu gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol a Llywodraeth Cymru, yn rhan o Brifysgol Caerdydd ac yn aelod o Rwydwaith yr Hyn sy'n Gweithio ('What Works Network') y Deyrnas Unedig.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Manon Roberts**

+44 (0)29 2087 5345

manon.roberts@wcpp.org.uk

**Wales Centre for Public Policy**

Cardiff University, Sbarc/Spark, Maindy Road, Cardiff CF24 4HQ

www.wcpp.org.uk 029 2087 5345

info@wcpp.org.uk @WCfPP

CARDIFF UNIVERSITY PRIFYSGOL CAERDYDD

UKRI Economic and Social Research Council

Llywodraeth Cymru Welsh Government